

### Polisi Amgylcheddol

Mae Gyrfa Cymru Careers Wales yn cydnabod ei fod, fel darparwr gwasanaeth gyrfaoedd, cyngor a chyfarwyddyd i bob oed (gan gynnwys lleoliadau mewn cyflogaeth, hyfforddiant ac addysg i bobl ifanc) a hwyluso cysylltiadau busnes yng Nghymru, yn cael effaith ar yr amgylchedd. Byddwn yn pennu amcanion i greu cymdeithas arloesol, cynhyrchiol a charbon isel a byddwn yn defnyddio ein hadnoddau'n effeithlon ac yn gymesur gan gynnwys ystyried yr effaith a gawn ar newid yn yr hinsawdd a gwarchod yr amgylchedd. Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldebau amgylcheddol corfforaethol a byddwn yn ysgwyddo'r rhain drwy leihau ein hól troed amgylcheddol, dileu ffynonellau llygredd a gweithio i leihau effaith amgylcheddol andwyol o ran y ffordd rydym yn gweithredu. Mae'r uwch reolwyr yn ymrwymedig i weithredu'r polisi hwn.

#### CWMPAS:

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i bob agwedd ar weithrediadau'r Cwmni, ac eithrio'r rhai a gaiff eu rhedeg gan drydydd partïon yn cynnwys gweithrediad y Wefan Gyrfaoedd (sy'n cael ei lletya'n allanol), a bydd yn cael ei gyfathrebu i staff sy'n gweithio i'r cwmni, Aelodau'r Bwrdd a Chyflenwyr. Bydd y polisi hwn yn berthnasol i'n holl swyddfeydd.

#### Rydym yn Ymrwymedig i Ymgorffori Egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 drwy:

1. Sicrhau bod pob cam yn cael ei gymryd i ddileu pob ffynhonnell o lygredd o'n gweithrediadau. Drwy wneud hynny byddwn yn cydymffurfio'n llawn â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau amgylcheddol perthnasol drwy gynnal cofrestr amgylcheddol.
2. Lleihau ein hól troed carbon a'n heffaith andwyol ar yr amgylchedd o ran y ffordd rydym yn gweithredu drwy:
  - adolygu'n rheolaidd ein heffeithiau ar yr amgylchedd o leiaf bob blwyddyn a chynhyrchu cynllun gwella trosfwaol a chynllun swyddfa unigol a gaiff ei adolygu'n chwarterol gan staff y swyddfa.
  - monitro ein defnydd o ynni, dŵr a defnyddiau traul a gosod targedau i leihau'r rhain.
  - darparu hyfforddiant i bob aelod o staff ar ymwybyddiaeth amgylcheddol.
  - cynhyrchu canllawiau ar sut i ddileu a/neu leihau ein gwastraff a chynyddu'r gwastraff yr ydym yn ei ailgylchu er mwyn cyflawni ein dyletswydd ynglŷn â'n hierarchaeth gwastraff.
  - cefnogi staff i ddeall sut i ddefnyddio TGCh i leihau milltired busnes a pharau i annog pobl i rannu ceir os ydynt yn teithio at ddibenion busnes.
  - gosod targedau blynyddol i leihau teithio busnes a sicrhau bod gwybodaeth ar gael am argaeledd ac addasrwydd defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.
3. Ceisio gwella perfformiad amgylcheddol yn barhaus drwy gyflwyno System Reoli Amgylcheddol i fonitro ac adolygu ein perfformiad.
4. Codi ymwybyddiaeth staff, eu hannog i gymryd rhan mewn materion amgylcheddol a cheisio datblygu ar y cyd syniadau a mentrau newydd, gan gynnwys cynhyrchu Cod Eco ar gyfer ein swyddfeydd.
5. Sicrhau bod ein Polisi Amgylcheddol ar gael i'r cyhoedd.

#### ADOLYGU:

Caiff y polisi hwn ei adolygu bob blwyddyn neu'n gynt os bydd unrhyw newidiadau sylweddol yng ngweithgareddau neu weithrediadau'r Cwmni.



Llofnodwyd:

Prif Weithredwr

Dyddiedig

16/06/18



# CAREERS WALES CAREER CHOICES DEWIS GYRFA